**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 24 CHWEFROR 2016 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:30)**

**Aelodau CFfDLC yn Bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod) Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yn Bresennol:** Claire Worrall

**Cynrychiolydd Deloitte yn Bresennol:** Kath Shafer

**Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Bresennol:** Lisa James

**Swyddogion CFfDLC yn Bresennol:** Steve Halsall (Prif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid), Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes)

Croesawodd y Cadeirydd Claire Worrall a oedd yn bresennol am y tro cyntaf ar ran Swyddfa Archwilio Cymru yn dillyn y trosglwyddiad o Grant Thornton.

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1.1 Rhoddodd y Cadeirydd ymddiheuriadau ar ran Ian Howse (Deloitte), Anthony Barrett (Swyddfa Archwilio Cymru) a Matthew Redmond (CFfDLC).

**2. Datganiadau o Fuddiant**

2.1 Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2015.**

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2015.

**4. Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol.**

4.1 Nododd y Pwyllgor fod yr holl eitemau a oedd yn codi a'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau erbyn hyn, gan gynnwys y rhai i ddelio â nhw fel eitemau ar yr agenda nes ymlaen yn y cyfarfod. Ystyriwyd y dylai'r eitem yn ymwneud ag adolygu effeithiolrwydd archwilio fod wedi cyfeirio at yr adolygiad o'r broses archwilio 'fewnol' nid 'allanol' ac y dylid adlewyrchu hyn yng Nghynllun Gwaith y Pwyllgor.

4.2 Holodd Julie James beth fu canlyniad trafodaethau CFfDLC gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cynllun Asesu Iechyd Gweithle Bach. Atebodd Steve Halsall fod

CFfDLC wrthi'n casglu'r dystiolaeth angenrheidiol i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn galluogi cyfranogi yn y Cynllun y flwyddyn nesaf o bosibl.

## 5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor eu Cynllun Gwaith ar gyfer 2015-16 a oedd yn cynnwys yr holl eitemau a nodwyd fel rhai gofynnol yn y cyfarfod blaenorol. **Cytunwyd** y byddai'r eitem yn ymwneud ag adolygu effeithiolrwydd archwilio yn cael ei newid i gyfeirio at gyfarfod blynyddol i adolygu'r broses archwilio 'mewnol' nid 'allanol'.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 27 Gorffennaf 2016

## 6. Archwilio Allanol: Cynllun Archwilio 2016

6.1 Adroddodd Claire Worrall fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymatal ynglŷn â'r cyfarfod gyda Grant Thornton a bod rhywfaint o waith cynllunio cychwynnol ar gyfer yr archwiliad i'w wneud yn ystod yr wythnos. Roedd y Cynllun Archwilio ar gyfer 2015-16 yn amlinellu'r gwaith archwilio arfaethedig ar ddatganiadau ariannol 2015-16. Roedd yn cynnwys rhwymedigaethau'r Archwilydd Cyffredinol a'r dull archwilio, tasgau allweddol, allbynnau a lefel perthnasedd ar gyfer adrodd am gamddatganiadau, manylion personél y tîm archwilio newydd a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyflawni'r gwaith archwilio. Nodwyd bod disgwyl i'r ffioedd archwilio ar gyfer archwiliad 2016 fod yr un fath ag yn 2015.

6.2 Nodwyd bod tudalen 7 yn rhoi manylion effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith archwilio yn y Dyfodol. Er nad oedd CFfDLC yn un o'r cyrff a enwyd yn y Ddeddf, cytunwyd y byddai'n ceisio cydymffurfio â gofynion y Ddeddf cyn belled ag y bo'n ymarferol.

6.3 Amlinellwyd cyfrifoldebau priodol yr Archwilydd Cyffredinol a CFfDLC yn Atodiad 1, tra bo Atodiad 2 yn rhestru'r prif risgiau archwilio a allai arwain at gamddatganiadau perthnasol yn y cyfrifon ac yr oedd angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt yn ystod yr archwiliad, sef:

- Risg rheolwyr yn diystyru rheolaethau. Bydd yr ymateb i'r archwiliad yn cynnal prawf ar gofnodion dyddlyfrau ac addasiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol, adolygu amcangyfrifon cyfrifo a gwirio trafodion arwyddocaol;
- Y risg o gam-ddatgan perthnasol oherwydd twyll adnabod refeniw. Yr ymateb i'r archwiliad fydd adolygu a chynnal prawf ar bolisïau adnabod refeniw;
- Y risg nad yw datgeliadau priodol ar gyfer tâl uwch swyddogion yn unol â rheoliadau a deddfwriaeth berthnasol. Yr ymateb i'r archwiliad fydd cynnal prawf ar yr holl ddatgeliadau perthnasol ac adolygu prosesau cymeradwyo.
- Yr ansicrwydd ynglŷn â rôl y CFfDLC yn y dyfodol yn sgil adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Yr ymateb i'r archwiliad fydd adolygu gwybodaeth a sylwadau rheolwyr i sicrhau bod y datgeliadau priodol ar yr effaith wedi'u gwneud yn y datganiadau ariannol.
- Y risg y gallai defnydd CFfDLC o gyfrifwyr allanol arwain at fylchau mewn gweithdrefnau a chofnodion. Yr ymateb i'r archwiliad fydd cael dealltwriaeth o natur a thelerau'r gwasanaeth.

## 7. Archwilio Mewnol: Adroddiad Archwilio ar Ddiwedd Blwyddyn ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015-16

7.1 Adroddodd Kath Shafer fod archwiliad diwedd blwyddyn Deloitte wedi ymdrin â Rheolaeth Gyllidebol a rhoddwyd graddfa sicrwydd Sylweddol i hynny. Roedd yr adroddiad wedi gwneud 2 argymhelliad archwilio blaenoriaeth isel a gafodd eu derbyn gan y Comisiwn, sef:

- Fod fersiwn wedi'i diweddaru o'r cyfarwyddiadau desg 'Budgeting Methodology' ar gael ar y rhyngrwyd, a bod y cyfarwyddiadau desg 'Budgeting Methodology' a 'Monthly Budget Reporting' yn cynnwys gwybodaeth am y dyddiad yr adolygwyd y fersiwn gyfredol, a pha bryd fydd yr adolygiad nesaf; a
- Bod y gyllideb flynyddol a bennwyd gan y Rheolwr Cyllid yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Comisiwn mewn modd amserol.

7.2 Roedd y gwaith archwilio hefyd yn cynnwys adolygiad dilynol o gynnydd ar argymhellion y flwyddyn flaenorol. Byddai eitem 9 ar yr agenda yn delio ymhellach â chynnydd ar weithredu'r holl argymhellion sy'n weddill.

7.3 Roedd Adroddiad Blynyddol 2015-16 yn cynnwys crynodeb o'r gwaith archwilio a'i ganfyddiadau, ac yn rhoi graddfa sicrwydd gyffredinol o 'Sylweddol' i CFfDLC ar sail y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn. Roedd hefyd yn cynnwys hunanasesiad Deloitte o'i berfformiad wrth gyflawni'r gwaith archwilio yn ystod y flwyddyn.

## 8. Archwilio Mewnol: Holiadur Asesu Blynyddol 2015-16

8.1 Nodwyd yr holiadur gan y Pwyllgor ac roedd o'r farn nad oedd angen unrhyw newidiadau, ac y dylai'r asesiad archwilio mewnol blynyddol gael ei gwblhau cyn gynted ag y bo modd. Cynigiwyd y byddai aelodau yn cyfarfod ar ôl y cyfarfod i lenwi'r holiadur, ac eithrio Julie James a oedd wedi gorfod gadael y cyfarfod yn gynnar. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn cofnodi ymatebion aelodau yn dilyn y cyfarfod, ac yn adrodd y canlyniadau i'r cyfarfod nesaf.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 27 Gorffennaf 2016

8.2 **Cytunwyd** y byddai Julie James yn llenwi ei holiadur yn ddiweddarach ac yn ei e-bostio at y Rheolwr Cyllid.
**Gweithredu**: Julie James **Erbyn**: 29 Chwefror 2016

## 9. Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion yr Archwiliad

9.1 Nododd y Pwyllgor y cynnydd ar yr argymhellion archwilio mewnol a oedd yn weddill, yn cynnwys yr argymhellion hynny a ailgodwyd fel rhan o'r dilyniant i archwiliad mewnol 2015-16 yn ddiweddar.

9.2 Roedd yr argymhelliad a oedd yn weddill o 2012-13 ynglŷn â chwblhau rhestri gwirio wedi'i ailgodi gan fod yr archwiliad dilynol wedi canfod nad oedd yn cael ei

gwblhau'n effeithiol o hyd. Hysbyswyd Swyddogion Arolygon eto o'u cyfrifoldeb i gwblhau'r rhestri gwirio gan y Dirprwy Brif Weithredwr, a fyddai'n monitro'r sefyllfa'n fanylach yn y dyfodol er mwyn sicrhau cydymffurfio.

9.3 Roedd y ddau argymhelliad a oedd yn weddill o 2013-14 yn ymwneud â threfniadau Rheoli Cofnodion CFfDLC wedi cael dyddiadau terfyn diwygiedig, sef 31 Rhagfyr 2015, ond ni fodlonwyd y terfynau amser hyn ac felly ailgodwyd yr argymhellion eto. Adroddwyd bod y dyddiadau terfyn newydd, sef 31 Mawrth 2016, wedi'u cynnig ar gyfer y ddau argymhelliad, er bod yr argymhelliad yn ymwneud â drafftio Rhaglen Rheoli Cofnodion Gwybodaeth ac Arweiniad Staff wedi'i weithredu'n llawn erbyn hyn.

9.4 O ran argymhellion 2014-15, adroddwyd bod saith wedi'u hailgodi, sef:

- Ailgodwyd yr argymhelliad ynglŷn â Chofrestr Risg Pensiynau CFfDLC gan fod yr archwilydd o'r farn nad oedd yr argymhelliad gwreiddiol yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod y gofrestr yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Roedd hwn wedi'i gyflawni bellach i sicrhau bod y gofrestr yn cael ei hadolygu'n flynyddol;
- Ailgodwyd yr argymhelliad fod CFfDLC yn canolbwyntio ar gwblhau'r nodiadau gweithdrefn ar gyfer arolygon ac yn sicrhau eu bod yn cael eu dilyn ar gyfer pob arolwg yn y dyfodol, gan fod yr archwiliad dilynol wedi canfod tystiolaeth na chydymffurfiwyd yn llawn â'r argymhelliad ar gyfer arolwg cymunedol diweddar. Er bod pob un o'r Swyddogion Arolygon wedi cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i gydymffurfio â'r argymhelliad, nodwyd na fyddai modd cynnal profion pellach hyd nes bod arolygon pellach wedi'u cwblhau;
- Roedd yr argymhelliad yn ymwneud â dilysu data pensiwn aelod yn dal i ddisgwyl am ymateb pellach gan MyCSP. Roedd disgwyl y byddai'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu erbyn 31 Mawrth 2016;
- Ailgodwyd yr argymhelliad fod CFfDLC yn sicrhau bod yr holl wybodaeth allweddol sy'n berthnasol i arolygon yn cael ei chadw mewn ffeiliau arolygon, oherwydd na ellir cynnal prawf arno o ran ei weithredu hyd nes bod arolwg etholiadol wedi'i gwblhau;
- Ailgodwyd yr argymhelliad fod dogfennaeth yn ymwneud â rolau a chyfrifoldebau a gwahanu dyletswyddau sydd ar waith yn y Comisiwn yn cael ei diweddaru i adlewyrchu cyflogeion presennol a hefyd i gynnwys llofnodwyr awdurdodedig diweddar, gan fod yr archwilydd o'r farn nad oedd yr argymhelliad gwreiddiol yn mynd yn ddigon pell. Cynigiwyd nawr y bydd y rolau a'r cyfrifoldebau newydd a gwahanu dyletswyddau yn cael eu hymgorffori yn y Llawlyfr Caffael newydd erbyn 31 Mawrth 2016; ac
- Ailgodwyd yr argymhelliad fod CFfDLC yn canolbwyntio ar gydgrynhoi'r holl weithdrefnau pwrcasu presennol mewn Llawlyfr Caffael diweddar a ddylai gynnwys gweithdrefnau ar gyfer cyflawni ymarferion tendro, gan na fu modd ei weithredu erbyn y terfyn amser a gytunwyd yn flaenorol, sef 31 Ionawr 2016. Cynigir nawr y bydd yr argymhelliad yn cael ei weithredu erbyn 31 Mawrth 2016

9.5 Mae pedwar argymhelliad 2015-16, gan gynnwys y ddau argymhelliad newydd a drafodwyd yn eitem agenda 7, wedi'u cytuno i gyd, gyda dyddiadau gweithredu ar gyfer 2016.

## 10. Ymatebion i Holiadur Hunanasesu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

10.1 Ystyriwyd yr ymatebion i holiadur hunanasesu blynyddol y Pwyllgor a nodwyd y dangoswyd y mwyafrif o arfer da. Fodd bynnag, bu rhai ymatebion negyddol yn ymwneud ag agweddau ar y telerau penodi ar gyfer aelodau mewn perthynas â chymorth a hyfforddiant, adnewyddu penodiadau ac arfarnu perfformiad aelod. Y rheswm am hyn yn rhannol yw diffyg telerau penodi sy'n rhai penodol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac eithrio'r rheiny a roddwyd i'r aelod annibynnol. Roedd yr aelodau hynny o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a oedd hefyd yn aelodau o CFfDLC yn dod o dan y telerau penodi ar gyfer eu haelodaeth o CFfDLC. **Cytunwyd** y byddai'r holiadur yn cael ei ddiwygio i ddweud yn glir fod y cwestiynau hyn ond yn gymwys i'r aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 27 Gorffennaf 2016

10.2 Bu un ymateb negyddol arall yn ymwneud â hyfforddiant ar gyfer Aelodau Pwyllgor newydd. **Cytunwyd** y byddai trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer yr aelod Pwyllgor newydd, Theo Joloza, i fynychu hyfforddiant priodol ar gyfer aelodau o bwyllgorau archwilio.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Mawrth 2016

## 11. Adroddiad Blynyddol Drafft Cadeirydd ARAC 2015-16

11.1 Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol drafft Cadeirydd ARAC ar gyfer 2015-16 a nododd mai dim ond ar ddyddiad diweddarach y gallai rhai rhannau gael eu cwblhau. Cynigiwyd a derbyniwyd nifer o fân ddiwygiadau.

11.2 Roedd yr adroddiad yn cynnwys atodiad newydd sy'n rhoi manylion ffynonellau sicrwydd CFfDLC. Cynigiwyd nifer o feysydd gweithgarwch a sicrwydd eraill i'w cynnwys yn yr atodiad newydd. **Cytunwyd** y byddai'r rhain yn cael eu mabwysiadu ac y byddai atodiad wedi'i ddiweddaru ar sicrwydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Mawrth 2016

11.3 **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei ddiwygio i gynnwys yr holl newidiadau arfaethedig a gwybodaeth sydd heb ei rhoi.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Mawrth 2016

## 12. Datganiad Llywodraethu Drafft 2015-16

12.1 Nododd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu drafft a nododd mai dim ond ar ddyddiad diweddarach y gallai rhai rhannau gael eu cwblhau. Cynigiwyd a derbyniwyd nifer o ddiwygiadau. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei ddiwygio i gynnwys yr holl newidiadau arfaethedig a gwybodaeth sydd heb ei rhoi.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Mawrth 2016

## 13. Cofrestr Risg Pensiynau CFfDLC

13.1 Nododd y Pwyllgor Gofrestr Risg Pensiynau CFfDLC a oedd wedi’i hadolygu yn ystod Ionawr 2016, a’r nodyn o’r rheswm am y newidiadau a wnaed o ganlyniad i’r adolygiad hwnnw.

## 14. Adroddiad Rheoli Risg

14.1 Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiad, y gofrestr risg bresennol a’r polisi. Adroddwyd bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi’i newid ers Tachwedd 2015 i ail-lunio risg CR7 i adlewyrchu’n fwy cywir y sefyllfa bresennol yn ymwneud â rhaglen waith CFfDLC yn y dyfodol, a hefyd i’w rhannu yn ddwy risg, CR7 a CR10, er mwyn gwahaniaethu ymhellach rhwng y sefyllfa tymor byr ar gyfer arolygon etholiadol a’r sefyllfa tymor hir ar gyfer arolygon cymunedol. Nodwyd y newidiadau hyn gan y Pwyllgor.

## 15. Adroddiad Monitro’r Gyllideb

15.1 Nodwyd yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd i gyfarfod CFfDLC ar 26 Ionawr 2016. Adroddwyd bod y gyllideb ar gyfer 2015-16 wedi’i hail-lunio ar ôl ildio cyllid yn ôl i Lywodraeth Cymru, ac y gofynnwyd am gyllid ychwanegol ar gyfer yr arolwg seneddol gan Swyddfa’r Cabinet.

## 16. Datganiad Polisi Tâl CFfDLC

16.1 Nododd y Pwyllgor fod CFfDLC wedi mabwysiadu Datganiad Polisi Tâl Blynyddol yn ddiweddar yn unol ag argymhelliad a wnaed gan Weinidog Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Roedd y Datganiad yn amlinellu polisïau CFfDLC mewn perthynas â chyflog a thâl ei weithlu a’i fwriad oedd gwella cysondeb, tryloywder a hygyrchedd ar y materion hyn ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

## 17. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

17.1 Nododd y Pwyllgor y datganiadau diweddar ar gyfer lletygarwch a dderbyniwyd gan y Prif Weithredwr ac Aelodau yn y cyfarfod Rhwng Comisiynau a gynhaliwyd yng Nghaeredin yn ystod mis Tachwedd 2015. Nodwyd hefyd eu bod yn disgwyl i hawliadau pellach mewn perthynas â rhoddion a dderbyniwyd yn ystod ymweliad diweddar gan staff ac aelodau a’r Arolwg Ordnans yn Southampton.

## 18. Cwynion

18.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gwynion wedi’u derbyn ar gyfer 2015-16 hyd yma.

## 19. Adroddiad a Pholisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll

19.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ar gyfer 2015-16 hyd yma.

## 20. Adroddiad Diogelwch Data TG

20.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data ar gyfer 2015-16 hyd yma.

## 21. Unrhyw Fusnes Arall

### Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru

21.1 Nododd y Pwyllgor fod cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi'n ddiweddar. Roedd holl aelodau CFfDLC wedi derbyn copi, ac roedd wedi'i gynnwys yn nhrefniadau ymsefydlu CFfDLC ar gyfer aelodau'r dyfodol.

21.2 Tynnodd Theo Joloza sylw'r Pwyllgor at dudalen 67 yn yr Eirfa a oedd yn cyfeirio at 'Cyfrifon a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn unol â System Cyfrifon Ewropeaidd 1995' a nododd fod hon bellach wedi'i disodli gan System Cyfrifon Ewropeaidd 2010. Nodwyd hyn gan Lisa James a ddywedodd y byddai'n ei basio ymlaen i Lywodraeth Cymru.
**Gweithredu**: Lisa James **Erbyn**: 31 Mawrth 2016

## 22. Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol

22.1 Cynigiwyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol ar:

- Dydd Mercher 27 Gorffennaf 2016; a
- Dydd Mercher 23 Tachwedd 2016.

**Cytunwyd** y byddai'r dyddiadau hyn yn cael eu cylchredeg er mwyn eu cadarnhau.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 29 Chwefror 2016